# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-2020

### GYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2015-2019



Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: polisi@npt.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys

RHAGAIR....3
Adran 1 - Deddfwriaeth Cydraddoldeb....5
Adran 2 - Cynnydd....7
Adran 3 - Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol....20
Adran 4 - Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol....26
Adran 5 - Dweud eich dweud....28
Adran 6 - Mesurau Perfformiad....30

# RHAGAIR

Ar adegau o ansicrwydd mawr nid oes llawer o bethau y gallwn fod yn siŵr ohonynt, fodd bynnag, mae'r angen i weithio i fynd i'r afael â'r agweddau niferus ar anghydraddoldeb a wynebir gan ein preswylwyr a'n gweithlu yn un ohonynt.

Dyma'r adroddiad blynyddol terfynol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 ac wrth adrodd am y cynnydd a wnaed i fodloni'r amcanion cydraddoldeb, ffocws ein gwaith yn ystod 2019-2020 oedd adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau a nodwyd i'w bodloni.

Yn ystod 2019-2020, gwnaethom gynnydd da i wella bywydau pobl; drwy waith penodol i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn ogystal â'n gwaith o ran gwybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ymrwymiad iddi. Gwnaethom gynhyrchu 'Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach' ddiwygiedig a gweithredu polisi 'Absenoldeb Diogel' ar gyfer staff y mae unrhyw fath o gam-drin domestig yn effeithio arnynt. Ym mis Rhagfyr 2019 lansiwyd y Gwasanaeth O'r Ysbyty i'r Cartref (H2H) i gefnogi cleifion y mae angen cymorth parhaus arnynt ar ôl gadael yr ysbyty; ers cychwyniad pandemig COVID-19 mae hyn wedi datblygu'n Wasanaeth Rhyddhau Cyflym. Ym mis Chwefror 2020, daethom yn sefydliad sy'n ystyriol o ddementia. Gyda gwell dealltwriaeth o sut mae dementia yn effeithio ar bobl, rydym yn gallu darparu cymorth mwy priodol i'r rheini sy'n byw gyda dementia. Amlinellir cynnydd pellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Yn anffodus, effeithiodd cychwyniad pandemig COVID-19 ar ddiwedd mis Mawrth 2020 ar lawer o wasanaethau, sydd wedi effeithio ar gasglu data ac adrodd amdano.

Mae'r heriau diwrthdro a wynebwyd gennym i gyd dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn ddigynsail ac wedi profi pob un ohonom. Dechreuom ar y gwaith o ddiwygio'r cynllun cydraddoldeb strategol yn ystod 2019, heb ddeall yn llawn y newidiadau a fyddai'n digwydd cyn ei gwblhau yn 2020.

Oherwydd yr oedi a gafwyd wrth gwblhau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, a oedd yn ofynnol oherwydd COVID-19, cawsom gyfle i ailedrych ar ein hamcanion cydraddoldeb a'n camau gweithredu cysylltiedig, yng ngoleuni'r effeithiau yr oedd y pandemig a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi'u cael ar ein cymunedau.

Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ynghyd â'n hamcanion cydraddoldeb ym mis Hydref 2020, gyda'r camau gweithredu cysylltiedig, yr oedd angen eu hadolygu'n fanylach, yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2021.

Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi dod yn fwy amlwg yw bod cymaint mwy o waith i'w wneud o hyd cyn y gallwn ddweud o ddifrif ein bod wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Nid y camau gweithredu mawr yn unig sy'n gallu gwneud newid er gwell, ond y camau gweithredu bach sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

## Adran 1 - Deddfwriaeth Cydraddoldeb

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, drwy gyfuno a disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wrth-wahaniaethu, wedi symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan gael gwared ar anghysondebau a'i gwneud yn haws i bawb ei deall. Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac, yn y pen draw, wella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchodedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchodedig:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- tueddfryd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

### Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ac mae'r rhain yn cynnwys llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn o dan Adran 16(1) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2015-2019.

**Deddf Iaith 2011**

Rhoddodd y Mesur statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sefydlodd rôl Comisiynydd y Gymraeg, creodd weithdrefn er mwyn cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith a darparodd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymysg darpariaethau eraill.  Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo'r Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio, drwy bwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru, a gosod safonau ar sefydliadau.

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

Mae'r rheoliadau hyn, a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn cynnwys amrywiaeth o safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio fel a ganlyn:

- cyflwyno gwasanaethau
- llunio polisïau
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Cynhyrchwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2019-2020, yn unol â'r rheoliadau hyn, sy'n nodi sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau yn ystod y flwyddyn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn rhoi dyletswyddau ar y cyngor i bennu amcanion lles a gweithio mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau Cymru decach a mwy cyfartal. Mae'r cyngor wedi diwygio ei offeryn asesu effaith integredig yn ddiweddar i helpu swyddogion i ddiddyfnu'r holl ddyletswyddau sy'n codi mewn perthynas â chydraddoldeb.

## Adran 2 - Cynnydd

Yn ystod 2019-2020, ein prif ffocws oedd adolygu, diwygio a datblygu ymhellach amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb er mwyn paratoi ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a'i ddyddiad cyhoeddi disgwyliedig, sef mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, ni wnaethom golli golwg ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i fodloni'r amcanion cydraddoldeb ac integreiddio ein gwaith cydraddoldeb â'n Cynllun Corfforaethol ehangach.

Yn ystod blwyddyn diwethaf Cynllun 2015-2019, gwnaethom barhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb wrth droi ein ffocws at adolygu a diwygio ein hamcanion cydraddoldeb a datblygu camau gweithredu newydd i gyflawni ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldeb yng Nghastell-nedd Port Talbot yn well.

Mae'r cyfyngiadau ariannol yr ydym i gyd wedi'u profi dros y blynyddoedd diwethaf yn parhau yn ogystal â'r anghydraddoldeb a'r annhegwch yng Nghastell-nedd Port Talbot, a thu hwnt! Fodd bynnag, rydyn ni fel cyngor yn parhau i weithio tuag at leihau'r anghydraddoldeb hwn, a lle bynnag y bo modd, bydd cael gwared ar yr anghydraddoldeb hwn a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n hamcanion cydraddoldeb newydd ynghyd â gwell aliniad â'r Cynllun Corfforaethol, yn ein helpu i sicrhau bod hyn yn dod yn realiti.

**Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig**

1. **Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a rhoi gwybod amdanynt**
    - Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaethom hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2019, gan gynnwys y digwyddiad Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a gynhaliwyd gan Swyddog Troseddau Casineb yr Heddlu yn YMCA Port Talbot.
    - Comisiynodd ein Hadran Cefnogi Pobl astudiaeth i ddeall yn well angen y gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol yng Nghastell-nedd Port Talbot, a rhannwyd ei chanfyddiadau mewn digwyddiad ym mis Hydref 2019, a fydd yn helpu i lywio polisïau ac arferion wrth symud ymlaen.

2. **Cryfhau gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig a sefydlu dulliau amlasiantaeth i gefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a throseddu cyfundrefnol**
    - Parhaodd y gwaith o gyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy gydol 2019-2020, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o bob math o gam-drin domestig ac yn sicrhau bod sefydliadau mewn gwell sefyllfa i adnabod arwyddion o gam-drin domestig a gweithredu'n briodol.
    - Rydym wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Calan DVS, Hafan Cymru a Chyswllt Ysgolion Heddlu De Cymru i ddatblygu a/neu wireddu'r broses o weithredu gwersi perthynas iach ar gyfer ysgolion.
        - Derbyniodd 162 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Cwmtawe wersi a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Calan DVS a'r Grŵp Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb
        - Gweithdai Lles 'It's Your World', a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyswllt Ysgolion Heddlu De Cymru ac a dreialwyd yn Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, gyda chyfanswm o 500 o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn bresennol.

    - Ar hyn o bryd mae prosiect Sbectrwm Hafan Cymru yn darparu gwersi Perthynas Iach mewn wyth ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Cynhaliwyd ein digwyddiad Criw Hanfodol blynyddol ym mis Mehefin 2019 gyda 1,600 o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o sesiynau ar bynciau a oedd yn cynnwys diogelwch ar y rhyngrwyd, seiberdroseddu a pherthnasoedd iach.
- Cynhaliwyd sesiynau ychwanegol i ategu hyfforddiant Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP) gyda staff a sefydliadau partner, gan roi darlun mwy lleol o'r bygythiad terfysgaeth ledled Cymru.  Roedd yr adborth o'r sesiynau hyn yn gadarnhaol iawn, gan roi gwell dealltwriaeth i bobl o'r angen i gyfeirio unrhyw un y gallent fod â phryderon yn ei gylch at Banel y Sianel.

**Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

**1. Gwella cynnwys gwefan y cyngor**

- Gwnaethom ddiweddaru ein gwedudalennau addysg i helpu i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot a bwriedir gweithio i wella'r wefan ymhellach.
- Rydym yn parhau i ddiweddaru ein gwefan i sicrhau ein bod yn rhoi cyngor perthnasol mewn perthynas â Budd-dal Tai, Cymorth Treth y Cyngor a Thaliadau Tai Dewisol. Anogir preswylwyr i ddefnyddio sianeli digidol ac mae mwy o ffurflenni ar-lein yn cael eu datblygu, gyda ffurflen TTD (Taliadau Tai Dewisol) ar-lein newydd bellach yn fyw.

  Mae'r cymorth sydd ar gael hefyd yn cael ei hyrwyddo ar yr holl ddogfennau perthnasol a gellir cyfeirio preswylwyr i asiantaethau cefnogi hefyd.
- Mae ein tudalen 'Arolwg o'r Wefan' bwrpasol yn gwahodd y cyhoedd i roi eu barn i ni ar ein gwefan i'n helpu i wella ein cynnwys a sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.
- Cyflwynir ymgynghoriadau ar ein gwedudalen 'Dweud eich Dweud', sy'n galluogi'r cyhoedd i roi sylwadau ar gynigion etc. ar adeg ac mewn ffordd sy'n addas iddynt, yn ogystal â'n galluogi i gyrraedd cynifer o bobl â phosib a sicrhau bod ein cynigion ar gyfer cynlluniau a gwasanaethau yn cael eu llywio'n llawn. Er ein bod yn ceisio bod yn 'ddigidol yn gyntaf', rydym yn cydnabod nad yw pawb yn gallu manteisio ar ymgynghoriadau ar-lein ac felly rydym yn parhau i wneud trefniadau amgen.

**2. Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth/dogfennaeth**

- Gwnaethom barhau i weithio gyda'r Ganolfan Hygyrchedd Digidol i sicrhau bod ein gwefan yn hygyrch i gynifer o bobl â phosib, ni waeth beth fo'u technoleg neu eu gallu.
- Nid yw llawer o'n dogfennau PDF a Word hŷn ar y wefan yn bodloni safonau hygyrchedd, er enghraifft efallai nad oes modd eu defnyddio ar ddarllenydd sgrîn, ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â hyn drwy'r adolygiad

parhaus o'n gwefan. Rydym yn sicrhau bod yr holl ddogfennau newydd a lanlwythir i'r wefan yn hygyrch a bod y cynnwys yn gyfredol.

- Mae ein Llysgennad Cynhwysiad Digidol wedi parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cynhwysiad digidol i sefydliadau'r trydydd sector. Mae ef hefyd wedi gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol drwy gydol y flwyddyn, gan ennyn diddordeb a magu hyder, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, i ddefnyddio'r rhyngrwyd, gyda rhai grwpiau'n sicrhau cyllid ar gyfer isadeiledd digidol yn dilyn hyn, er mwyn datblygu eu gwaith. Mae cyflwyniad ar fanteision defnyddio gwasanaethau digidol wedi'i gyflwyno i gyfanswm o 352 o unigolion o 10 grŵp cymunedol gwahanol.
- Mae asiantaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi ymrwymo i gynllunio gwasanaethau ar-lein gyda dealltwriaeth o broffil digidol y cwsmeriaid y mae angen iddynt gael gafael ar wasanaethau. Ym mis Mawrth 2020 dyfarnwyd achrediad Siarter Cynhwysiad Digidol llawn i Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol y BGC.

**Amcan Cydraddoldeb 3 - Gwella mynediad at wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

**Gwella mynediad at ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Datblygwyd un ffurflen atgyfeirio i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion. Deilliodd y ffurflen atgyfeirio hon o gydweithio rhwng trawsadrannau o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd. Mae'r ffurflen, a lansiwyd ym mis Chwefror 2020, yn hwyluso'r cyfle i gasglu pryderon diogelu oedolion a gofnodwyd ar wahân yn flaenorol, ac sy'n cael eu gweithredu ar draws asiantaethau partner.
- Mae gwaith yn parhau ar draws y rhanbarth i adolygu'r mathau o wasanaethau a ddarperir yn y gymuned i alluogi mwy o bobl i gadw eu hannibyniaeth. Rydym eisoes wedi cwblhau ymarfer mapio i nodi'r bobl hynny y rhagwelir y bydd angen gwasanaethau cymorth a llety arnynt ac rydym wedi sicrhau cyllid i ddatblygu 14 uned lety a chyfleuster gofal ychwanegol i bobl ag anghenion cymhleth.
- Ym mis Rhagfyr 2019 lansiwyd y Gwasanaeth O'r Ysbyty i'r Cartref (H2H). Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion y mae angen cymorth parhaus arnynt i adael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn ddigon iach i wneud hynny. Gyda'r ymagwedd newydd hon, disgwylir y bydd gostyngiad yn nifer yr achosion o ryddhau gohiriedig oherwydd caiff asesiadau i benderfynu ar anghenion tymor hir claf eu cynnal yn ei gartref ei hun, yn hytrach nag mewn gwely yn yr ysbyty. Ers cychwyniad COVID-19 mae'r gwasanaeth wedi datblygu ymhellach yn Wasanaeth Rhyddhau Cyflym.
- Erbyn hyn mae arweinydd Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) wedi'i benodi i weithredu'r cynllun strategol ASD yn y fwrdeistref sirol. Mae'r arweinydd yn cyfarfod â gweithwyr proffesiynol perthnasol, rhieni, gofalwyr a phobl ag ASA i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu i wella bywydau pobl ag Awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

  Roedd ymgynghoriad 90 diwrnod i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2020 ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Rydym yn parhau i gynnig asesiadau i ofalwyr, ac mae'r rheini nad ydynt yn manteisio ar y cynnig yn cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot.

**Amcan Cydraddoldeb 4 - Monitro gwybodaeth a data'n effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig**

**Datblygu systemau monitro cadarn o fewn gwasanaethau**

- Mae casglu ein data cyflogaeth yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, gyda'r porth gweithwyr hunanwasanaeth bellach ar gael i fwy o staff, mae data mwy cywir ar gael. Rhagwelir y bydd gwelliannau pellach mewn casgliadau data yn parhau i gael eu gwneud drwy gyflwyno'r system Adnoddau Dynol newydd yn ystod 2021.
- Roedd 218 o ymatebwyr i'r Arolwg Cydlyniant Cymunedol (Brexit), a gynhaliwyd yn 2019 fel rhan o Raglen Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin; Roedd 6 ymatebydd yn aelodau o'n cymunedau BAME. Cynhyrchwyd adroddiad o'r canfyddiadau ym mis Mai 2020. Mae'r arolwg wedi darparu gwybodaeth am brofiadau pobl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau'r sector cyhoeddus, pa mor anodd neu hawdd y maent yn ei chael hi i ymgysylltu â phobl o gefndiroedd eraill ac os ydynt wedi dioddef digwyddiad casineb/trosedd casineb yn yr ardal. Wrth symud ymlaen bydd yr wybodaeth hon yn hanfodol i'n gwaith wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau i'n preswylwyr
- Siaredir 68 o wahanol ieithoedd a thafodieithoedd yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Castell-nedd Port Talbot gyda 720 o ddisgyblion allan o 21,238 yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf; Bengaleg, Pwyleg, Arabeg a Rwmaneg ymysg y 10 iaith uchaf a siaredir. Mae gan CNPT un o'r cymunedau/safleoedd Teithwyr mwyaf yng Nghymru gyda 76 o blant yn ein hysgolion. (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Ionawr 2020)

**Amcan Cydraddoldeb 5 - Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb**

- Ymgymerodd cyfanswm o 1,349 o staff â hyfforddiant ar bynciau cydraddoldeb penodol gan gynnwys:
    - Deall ac Ymateb i Fasnachu Pobl a Chaethwasiaeth
    - Gweithdy WRAP achrededig y Swyddfa Gartref (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o PREVENT)
    - Hyfforddiant PREVENT drwy e-ddysgu
    - Ymwybyddiaeth o Ddementia ac Ymateb i Ymddygiad gofidus
    - Taith Dementia Rithwir
    - Anableddau Cudd a Gwneud Addasiadau Rhesymol
    - Cydraddoldeb yn y Gweithle

- Datblygwyd canllawiau mewn partneriaeth â'n hundebau llafur, i helpu rheolwyr llinell i ystyried a chytuno ar addasiadau rhesymol mewn cyfweliad ac wrth ystyried yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, gan sicrhau proses deg a thryloyw.

**Amcan Cydraddoldeb 6 - Gwella mynediad i'r amgylchedd** drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

- Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu sinema'r Plaza fel hwb cymunedol a bydd yn cynnwys caffi, swyddfeydd, neuadd amlbwrpas, ystafelloedd amlbwrpas, campfa, dwy uned fanwerthu a lle parcio i geir a beiciau. Mae'r nodweddion canlynol wedi'u hymgorffori yn y dyluniad i gynorthwyo gyda mynediad:
    - Mae CADW wedi rhoi caniatâd i gyflwyno lifft platfform i'r prif risiau mynediad.
    - Mae lifft teithwyr yn cael ei osod ar gyfer mynediad rhwng y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.
    - Bydd lifft platfform hefyd rhwng y llawr cyntaf a'r ail lawr.
    - Prin yw'r parcio o fewn cwrtil y safle, ond mae tri lle i'r anabl yn cael eu darparu yng nghefn yr adeilad.
- Dechreuom ar y gwaith o ddatblygu ymhellach y cyfleusterau i ymwelwyr ym Mharc Coedwig Afan. Er bod ganddynt lwybrau hygyrch i'r ganolfan ymwelwyr, mannau parcio i'r anabl a chyfleusterau cyhoeddus hygyrch eisoes, bwriedir i ardal chwarae i blant gynnwys elfennau cwbl hygyrch, yn gorfforol ac yn synhwyraidd, a fydd yn gwella'r profiad i ymwelwyr.
- Gosodwyd canllawiau newydd ar lan môr Aberafan i wella mynediad yr anabl i'r traeth.
- Mae'r Tîm Bioamrywiaeth yn gweithio mewn partneriaeth i greu rhestr o fannau gwyrdd hygyrch yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar ôl ei chwblhau, bydd yr ymchwil/data yn bwydo i mewn i'r asesiad isadeiledd gwyrdd i sefydlu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Mae'r asesiad yn ein galluogi i ddatblygu dull clir o wella lles drwy gynyddu mynediad i isadeiledd gwyrdd wrth wella bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecolegol. Bydd yn darparu sylfaen wybodaeth y gall ei dilyn i ddatblygu strategaeth a pholisïau mannau gwyrdd ar gyfer y CDLl.
- Dyfarnwyd £334,000 o gyllid craidd teithio llesol i ni ar gyfer gwaith dylunio pellach, mân waith gwella, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. Mae nifer o gynlluniau i wella mynediad i wahanol lwybrau a llwybrau troed yn cael eu datblygu ar draws y fwrdeistref sirol: mae'r gwaith yn cynnwys ailwynebu, gosod arwyddion newydd, dileu rhwystrau a rhai mesurau rheoli mynediad a gosod croesfannau wedi'u gollwng/palmentydd cyffyrddol.

- Dechreuwyd yr ailgyhoeddiad swmpus o gardiau bws rhatach ym mis Medi 2019, yn dilyn newidiadau yn y Canllawiau ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol yr un mis. Hyd yn hyn, proseswyd dros 14,000 o geisiadau'n llwyddiannus. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda gweithredwyr bysiau a sefydliadau partner y trydydd sector i helpu i gyflwyno cardiau bws rhatach newydd.

**Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig**

Wrth adrodd am gynnydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020, mae cychwyniad pandemig COVID-19 o fis Mawrth 2020 wedi effeithio ar adroddiadau llawn ar yr amcan hwn.  Gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2019 a Mawrth 2020, oni nodir yn wahanol.

**1. Cynyddu lefelau presenoldeb disgyblion â'r nodweddion gwarchodedig**

- Gwnaethom ddarparu dros 1,350 o ddyfeisiau i ddisgyblion nad oes ganddynt ddyfais briodol neu gysylltiad Wi-Fi gartref, er mwyn iddynt barhau â'u hastudiaethau o fis Mawrth 2020.
- Effeithiwyd ar ffigurau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ym mlwyddyn academaidd 2019-2020 gan gychwyniad pandemig COVID-19. Yn seiliedig ar ffigurau hyd at 13 Mawrth 2020, roedd presenoldeb cyffredinol yn weddol gyson â phresenoldeb cyffredinol y flwyddyn academaidd flaenorol (93.83% o'i gymharu â 94.02% 2018-2019).

  Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol o ran presenoldeb ymhlith disgyblion sy'n deithwyr (77.92% o'i gymharu ag 84.58%). Er na ellir nodi unrhyw reswm penodol, mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn; teuluoedd yn dod yn fwy crwydrol nag arfer; pwysau o fewn y gymuned Teithwyr a thraddodiad diwylliannol; gallai newidiadau yn y Gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed a'r Gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg fod wedi amharu ar gefnogaeth a hyder ymhlith teuluoedd; a chyda niferoedd isel o ddisgyblion mae absenoldeb ychydig o blant yn debygol o weld mwy o wahaniaeth canrannol.
- Effeithiwyd yn yr un modd ar ffigurau presenoldeb ysgolion uwchradd (92.51% o'i gymharu â 93.46% 2018-2019). Unwaith eto, mae presenoldeb ymhlith disgyblion sy'n deithwyr yn sylweddol is nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol (65.65% o'i gymharu â 76.62%). Unwaith eto, er na ellir nodi unrhyw reswm penodol, mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn; teuluoedd yn dod yn fwy crwydrol nag arfer; pwysau o fewn y gymuned Teithwyr a thraddodiad diwylliannol; gallai newidiadau yn y Gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed a'r Gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg fod wedi amharu ar gefnogaeth a hyder ymhlith teuluoedd; a chyda niferoedd isel o ddisgyblion mae absenoldeb ychydig yn debygol o weld mwy o wahaniaeth canrannol.

- Cafwyd cyfanswm o 13 o waharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-2020, gostyngiad ar yr 18 gwaharddiad a gafwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Cynyddodd nifer y gwaharddiadau ysgol gynradd i dri (dau fachgen ac un ferch) tra bod nifer y gwaharddiadau ysgol uwchradd wedi gostwng 10 (chwe bachgen a phedair merch). Yn fwy arwyddocaol, gostyngodd nifer y disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a waharddwyd ar draws y ddau sector o 14 i 11.

**2. Lleihau'r bylchau rhwng cyrhaeddiad perfformiad addysgol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnodau Allweddol (CA) 2 a 3**

Gyda'r amharu a gafwyd ar ddysgu ac asesu yn ystod rhan olaf y flwyddyn academaidd nid yw'n bosib darparu cymhariaeth wirioneddol rhwng blynyddoedd academaidd o ran lefelau cyrhaeddiad. Er na chasglwyd asesiadau Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020 oherwydd pandemig COVID-19, cynhaliwyd asesiadau athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, ac mae'r manylion i'w gweld ar dudalen 36.

- Datblygwyd adran Arweinyddiaeth Castell-nedd Port Talbot benodol ar HWB sy'n darparu pecyn cymorth o adnoddau gwerthfawr i arweinwyr ysgolion, gan gynnwys adnoddau i gefnogi arweinwyr i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a'u gwneud yn fwy seiliedig ar ddisgyblion.
- Parhaodd ein gweithwyr ieuenctid Etifeddol i gefnogi ysgolion uwchradd drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bob ysgol. Mae cyfuniad o waith grŵp a chymorth un i un wedi bod yn llwyddiannus mewn ysgolion, ac mae prosiectau yn y gymuned leol wedi rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous i bobl ifanc. Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2019, cefnogwyd 608 o bobl ifanc (343 o ddynion a 265 o fenywod) gan y Tîm Etifeddiaeth.
- Roedd nifer y disgyblion sy’n Sipsiwn/Teithwyr a nodwyd ar gofrestrau ysgolion wedi aros yn weddol gyson gyda 76 o ddisgyblion (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion 2020) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-2020.
- Erbyn mis Medi 2019, roedd y tîm Cam Nesa wedi gweithio gyda 321 o bobl ifanc, yr oedd 131 ohonynt wedi dod o hyd i swyddi. Mae Cam Nesa yn brosiect sy'n helpu i leihau nifer y bobl ifanc NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru.

**Amcan Cydraddoldeb 8 - Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb.**

- Dyfarnwyd y Wobr Arian am Amrywiaeth Rhyw i ni gan Chwarae Teg i gydnabod ein hymrwymiad clir i wneud gwahaniaeth i recriwtio, cadw a chynnydd menywod yn y gweithle.

- Gwnaethom gofrestru ar gyfer Adduned Cyflogwr Ymgyrch Amser i Newid Cymru ym mis Medi 2019, sy'n darparu fframwaith ar gyfer cyflogwyr i gefnogi gweithwyr gyda'u hiechyd meddwl. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, yn ogystal â chyfeirio staff at gyngor, arweiniad a chefnogaeth. Bydd rhwydwaith o Hyrwyddwyr a recriwtiwyd o'n gweithlu yn helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac yn annog gweithwyr i siarad am eu lles meddwl.

- Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i weithredu polisi 'Absenoldeb Diogel' ar gyfer staff y mae unrhyw fath o Gam-drin Domestig yn effeithio arnynt, gan roi cyfle iddynt gael gafael ar wasanaethau cymorth, cyngor cyfreithiol, tai amgen neu gymorth meddygol mewn ffordd ddiogel, wedi'i chynllunio.

**Amcan Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau - datblygu data cyflog/cyflogaeth ymhellach er mwyn deall yn well y rhesymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r bwlch cyflog.**

- Yn ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019, gostyngodd y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog y dynion a'r menywod sy'n gweithio yn y cyngor i 3.93% ym mis Mawrth 2019. Er ei fod yn galonogol, mae'r cyngor wedi ymrwymo i leihau'r bwlch hwn ymhellach.
- Mae Chwarae Teg wedi ein helpu i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhyw, sy'n cynnwys camau gweithredu penodol i leihau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y cyngor. Mae ystyriaeth benodol o fewn y cynllun gweithredu i'r gweithwyr benywaidd â'r cyflog isaf, sy'n arbennig o bwysig oherwydd er bod 70% o broffil rhyw cyffredinol y cyngor yn fenywod, mae 97% o'r rheini a gyflogir ar Radd 1, band cyflog isaf y cyngor, yn weithwyr benywaidd

- Fel rhan o'r Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg, y gwnaethom ymuno ag ef ym mis Chwefror 2019, mae  Chwarae Teg wedi bod yn ein cefnogi i sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac felly gyflawni holl fanteision gweithlu gwirioneddol gytbwys.

## Adran 3 - Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol

Wrth fodloni'r amcanion cydraddoldeb, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau ariannol parhaus, llai o allu, mwy o ddisgwyliadau a demograffig newidiol Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn ceisio ymgymryd â'n holl waith gan ddefnyddio gwybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'n hymroddiad iddi.

Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth ar draws ystod ein gweithgareddau. Mae yna hefyd gydnabyddiaeth a gwaith i ymdrin ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau - p'un ai mewn cysylltiad â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig, anghydraddoldeb a achosir gan anghyfartaledd mewn incwm, neu o ganlyniad i a yw plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain neu gan y cyngor.

Rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol at ein gwaith sydd wedi cynnwys cydlynu ein hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaethau gwella corfforaethol fel bod unrhyw gynnydd a wneir yn fuddiol i'r ddau. Mae cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwella a'r amcanion lles i'w weld yn  Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2019-2020.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i wireddu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a hawliau'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â ni neu ddefnyddio ein gwasanaethau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd niferoedd cymharol fach o staff sy'n barod i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ac yn medru gwneud, cyfleoedd recriwtio cyfyngedig a chyllidebau sy'n parhau i leihau sydd i gyd wedi effeithio ar ein gwasanaeth Cymraeg.

Gyhoeddwyd [Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020] ar 31 Gorffennaf 2020. Gohiriwyd ei gyhoeddi oherwydd pandemig byd-eang y Coronafeirws ac ymateb y cyngor i sicrhau bod ei breswylwyr a'i staff yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf.

Yng ngoleuni'r newidiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i COVID-19 a'n hymateb i'r pandemig, mae'n debygol y bydd y gwasanaethau a ddarperir ar ôl COVID-19 yn edrych yn wahanol a bydd yn gyfle delfrydol i adolygu ein gwasanaeth Cymraeg yn fwy effeithiol.

Mae adroddiad cynnydd [Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod] Hydref 2019 – Mawrth 2020, yn amlygu'r cynnydd a wnaed ar y gwahanol gamau gweithredu y cytunodd y cyngor a'i bartneriaid grwpiau cymunedol i'w datblygu i helpu i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol**

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid, cymunedau lleol a grwpiau â diddordeb i gasglu gwybodaeth, a gynorthwyodd i lywio ein strategaethau, ein polisïau a'n cynlluniau amrywiol yn ogystal â dylanwadu ar sut rydym yn cyflwyno ein gwasanaethau.

Mae nodi a chasglu gwybodaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses asesu effaith a thrwy gasglu'r wybodaeth berthnasol fel rhan o'r ddarpariaeth gwasanaeth rydym mewn sefyllfa well i ddeall cymhlethdod ein bwrdeistref sirol ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu polisi a gwasanaethau.

Rydym yn parhau i weld gwelliannau i sut caiff data cyflogaeth ei gasglu a'i dadansoddi o ganlyniad i gyflwyno'r Porth Gweithwyr lle mae staff yn gallu diweddaru eu cofnodion unigol eu hunain. O ganlyniad, rydym yn gallu deall ein gweithlu'n well ac, felly, rydym yn gallu datblygu polisïau mewnol sy'n cael eu llywio gan wybodaeth fwy cadarn.

Ceisiodd yr Arolwg Cydlyniant Cymunedol (Brexit), a gynhaliwyd yn 2019 fel rhan o Raglen Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin, sefydlu sylfaen dystiolaeth a deall effaith Brexit ar ein cymunedau. Mae'r arolwg wedi darparu

gwybodaeth am brofiadau pobl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau'r sector cyhoeddus, pa mor anodd neu hawdd y maent yn ei chael hi i ymgysylltu â phobl o gefndiroedd eraill ac os ydynt wedi dioddef digwyddiad casineb/trosedd casineb yn yr ardal. Wrth symud ymlaen bydd yr wybodaeth hon yn hanfodol i'n gwaith o ddatblygu polisïau a gwasanaethau i'n preswylwyr.

**Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith arall yn ystod 2019-2020 i fodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

- Gwnaethom gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau a gweithdai ar draws y fwrdeistref sirol ac Abertawe gyda'r nod o gynorthwyo dinasyddion Ewrop gyda gwybodaeth am Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a mynediad iddo. Mae gwybodaeth a dolenni i nifer o wefannau defnyddiol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol, swyddogol am Brexit hefyd ar gael ar ein gwefan.
- Adolygwyd y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), 'Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach', ond gohiriwyd ei gyhoeddi tan fis Mai 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Datblygwyd y strategaeth, sydd â chyfres newydd o amcanion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau lleol a goroeswyr VAWDASV.
- Cynhaliwyd digwyddiad Clyfar a Chysylltiedig 2020 ym mis Mawrth 2020 i archwilio sut y gallai dull mwy digidol fod o fudd i'n meysydd gwasanaeth. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, rhoddwyd hyn ar brawf gyda chychwyniad pandemig COVID-19 a welodd gynnydd yn nifer y staff sy'n darparu gwasanaethau gan ddefnyddio technoleg o bell, o gyfartaledd o 50 y dydd i dros 1,500 y dydd.
- Cefnogodd ein Gwasanaeth Ieuenctid lawer o weithgareddau a mentrau ar draws y fwrdeistref sirol gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu i ofalwyr ifanc, pobl ifanc LGBTQ+, pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg ymhlith eraill. Yn ogystal, ein Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf oedd y cyntaf yng Nghymru i ymuno â'r Siarter Cyfranogiad Genedlaethol ac maent wedi derbyn y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol am y ffordd y maent yn annog plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud wrth ddylunio a chynllunio'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Cafodd diweddariad mwy cyflawn o'r gwaith y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud yn ystod 2019-2020 ei adrodd i'r Aelodau ym mis Ionawr 2020.

- Daethom yn sefydliad sy'n Ystyriol o Ddementia ym mis Chwefror 2020. Gyda gwell dealltwriaeth o sut mae dementia yn effeithio ar bobl, rydym yn gallu darparu cymorth mwy priodol yn well i'r rheini sy'n byw gyda dementia.   Yn anffodus, ni chynhaliwyd y digwyddiad a gynlluniwyd ar gyfer mis Ebrill gan y Gynghrair Pobl Hŷn, lle byddai'r dyfarniad wedi'i gyflwyno ac y byddai'rComisiynydd Pobl Hŷn wedi bod yn bresennol, oherwydd cychwyniad COVID-19.

- Gwnaethom barhau i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol ar draws y fwrdeistref sirol: cynhaliwyd pedwar gwersyll chwaraeon cwbl cynhwysol wythnos o hyd yn ogystal â gwersyll wythnos o hyd i blant anabl yn ystod 2019-2020, ynghyd â rhaglen chwaraeon cymunedol hygyrch ar gyfer plant ag anableddau.
- Cynyddodd y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar gyda sesiynau stori Cymraeg a phecynnau adnoddau stori yn cael eu cynnig i bob darparwr. Mae cynllun dysgu Cymraeg CAMAU ar gyfer addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar yn parhau i gael ei hyrwyddo.
- Yn ystod 2019-2020, cefnogodd y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn (VLS), sy'n cefnogi grwpiau o ddysgwyr diamddiffyn, 11 o ddysgwyr a dau riant, i ennill 13 o gymwysterau iaith gyntaf (IGCE Thai, TGAU Mandarin, TGAU Arabeg ac Arabeg Safon Uwch).
- Gwnaethom ymrwymo i gytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o ran prosesau ar gyfer datblygu a chomisiynu cynlluniau newydd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.
- Er mwyn cael cipolwg gwell ar effaith diwygiadau budd-daliadau lles ar bobl leol, gwnaethom gomisiynu Polisi Ar Waith i ddatblygu offeryn Olrhain Teuluoedd ag Incwm Isel (LIFT) ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.  Gan ddefnyddio data ar lefel aelwydydd a dadansoddeg uwch, bydd yr offeryn olrhain yn ein galluogi i nodi maint yr effaith y bydd newidiadau i ddiwygio lles yn ei chael ar breswylwyr.  Bydd yr wybodaeth rydym wedi'i dysgu o'r gwaith hwn hefyd yn ein galluogi i ddeall yn well yr effeithiau ar ein preswylwyr sy'n dioddef caledi ariannol oherwydd COVID-19.
- Cynhaliwyd Symposiwm Tlodi amlasiantaethol ym mis Medi 2019 i hwyluso trafodaeth am beth arall y gallwn ei wneud i amddiffyn y rheini sydd fwyaf tebygol o ddioddef argyfwng ariannol. Cynhaliwyd gweithdy tlodi amlasiantaethol dilynol ym mis Ionawr 2020.  Yn anffodus, oherwydd COVID-19, mae gwaith pellach wedi'i ohirio ond bydd yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosib.

- Cwblhawyd gwaith ail-wynebu, gosod gwell arwyddion a marciau ffordd a gwelliannau draenio mewn tanffordd ar y llwybr beicio sydd ochr yn ochr â Chwrs Golff Bae Abertawe, Fabian Way, ac mae bellach yn darparu llwybr mwy diogel a hygyrch i feicwyr a cherddwyr.
- Ym mis Tachwedd 2019, treialwyd Sesiwn Galw Heibio ar gyfer y Darfyddiad Mislif fel menter ar y cyd rhwng Adnoddau Dynol ac Iechyd Galwedigaethol ac o ganlyniad i adborth cadarnhaol, byddai hyn wedi dod yn gynnig rheolaidd yn 2020. Fodd bynnag, oherwydd yr amhariad ar arferion gwaith ers mis Mawrth 2020, ni fu hyn yn bosib er bod cyfres o ddogfennau canllaw a chyngor ar gael ar ein mewnrwyd.
- Cynhaliwyd gweithdy 'First 1,000 Days' i reolwyr a phartneriaid gwasanaethau allweddol ym mis Mehefin 2019. Cyn y digwyddiad a drefnwyd, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar-lein â rhieni er mwyn deall profiad rhieni yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd eu plentyn. Ymatebodd dros 230 o rieni i'r holiadur ar-lein, a gwnaeth eu hadborth lywio'r gweithdy. Yn dilyn y gweithdy a'r adborth, lluniwyd cynllun cyflawni i ddatblygu camau gweithredu a nodwyd. Bydd y rhain yn rhan o raglen Braenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.

  Cynhaliwyd digwyddiadau pellach yn CNPT ac Abertawe yn ystod mis Rhagfyr 2019 i nodi'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael a deall y broses sy'n cysylltu gwasanaethau a haenau o anghenion. Cynhaliwyd digwyddiad dilynol rhanbarthol ym mis Mawrth 2020 i adolygu'r mapio a nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol.

  Cynlluniwyd grwpiau ffocws gyda rhieni ar gyfer diwedd mis Mawrth 2020 ond mae'r rhain wedi'u gohirio oherwydd pandemig COVID-19.
- Gwnaethom barhau i gyflawni Strategaeth Digidol y cyngor (Clyfar a Chysylltiedig) - gan achub ar fanteision technolegau digidol i wella'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithio i ddiwallu anghenion ein preswylwyr yn well a gwneud y fwrdeistref sirol yn ddeniadol i ddarpar fuddsoddwyr busnes. Fodd bynnag, nid ydym wedi anghofio nad yw llawer o bobl yn gallu bod yn rhan o'r byd digidol am amryw o resymau ac rydym yn parhau i wneud trefniadau amgen.
- Gyda Rheithor Aberafan a'r Heddlu, cynhaliwyd Diwrnod Ymwybyddiaeth Trawsrywiol - Cydraddoldeb yn y Gweithle ym mis Chwefror 2020. Nod y digwyddiad oedd cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr lleol. Tynnodd siaradwyr gwadd, a oedd yn drawsrywiol eu hunain, sylw at y materion yr oeddent wedi'u hwynebu yn ogystal â'r gefnogaeth a roddwyd gan ffrindiau a chyflogwyr.

## Asesiadau Effaith Integredig

Rydym wedi adolygu a diwygio ein proses asesu effaith cydraddoldeb i gynnwys ein dyletswyddau cyfreithiol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ogystal â chynnal y ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Y nod yw datblygu ymagwedd fwy integredig at asesu effaith ein polisïau a'n gwasanaethau ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r gymuned ehangach, nawr ac yn y dyfodol.

Cyflwynwyd y broses asesu effaith integredig ddiwygiedig ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ym mis Ebrill 2019.

Diweddarwyd Canllawiau Adroddiad Gweithredol ac Anweithredol/Rheoleiddiol y cyngor hefyd i atgyfnerthu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd. Roedd y diweddariad hwn o ganllawiau'r adroddiad hefyd yn gyfle i atgyfnerthu'r ffordd y caiff asesiadau effaith eu hadrodd i aelodau. Dosbarthwyd hwn i'r staff perthnasol ac, ynghyd â'r dogfennau asesu effaith integredig, maent ar gael ar ein mewnrwyd i'r holl staff eu defnyddio.

Bwriadwyd cynnal adolygiad o lwyddiant rhoi'r broses asesu effaith integredig ar waith ym mis Mai 2021, ond gohiriwyd hyn oherwydd cychwyniad pandemig COVID-19.

Mae gofynion y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sydd bellach i'w chyflwyno o fis Ebrill 2021, yn golygu bod angen diwygio'r broses asesu ymhellach. Er bod egwyddorion y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn y broses asesu, bu'n ofynnol gwneud rhai mân ddiwygiadau er mwyn archwilio effaith y ddyletswydd wrth wneud penderfyniadau strategol yn fwy penodol.

## Gwybodaeth Benodol am Gyflogaeth

Adroddwyd am wybodaeth Cydraddoldeb Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 2019-2020 i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn ystod rhan olaf 2020 a chaiff ei chyhoeddi maes o law.

Mae'r data naill ai ar gyfer y cyfnod 12 mis o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020, neu, lle bo'n briodol, yn giplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod bod bylchau o hyd yn yr wybodaeth sydd ar gael gan fod darparu'r data hwn yn wirfoddol. Mae'r broses o gasglu data yn isel mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred a thueddfryd rhywiol.  Fodd bynnag, mae'r porth gweithwyr wedi rhoi cyfle i staff ddiweddaru eu cofnodion personol eu hunain, gan gynnwys y gallu i ddiweddaru eu nodweddion gwarchodedig, yn ddiogel ac yn gyfrinachol.  Nifer y staff a oedd yn defnyddio'r porth gweithwyr ar 31 Mawrth 2020 oedd 3,377.

Mae ein hail adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019, yn nodi'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog y dynion a'r menywod sy'n gweithio yn y cyngor ar gyfer y blynyddoedd 2018 a 2019. Cymerwyd y data tâl o weithlu'r cyngor ar:

31 Mawrth 2018, 3,741 cyflogwr sy'n cynrychioli 1,256 (33.57%) o ddynion a 2,485 (66.43%) o fenywod

31 Mawrth 2019, 3,784 o weithwyr sy'n cynrychioli 1,277 (33.75%) o ddynion a 2,507 (66.25%) o fenywod

Nid yw'r data cyflog yn cynnwys gweithwyr achlysurol a gweithwyr pob ysgol.

## Adran 4 - Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Ar 30 Hydref 2019 cymeradwyodd y Cabinet estyniad i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 i Ebrill 2020 i ganiatáu digon o amser i wella ei aliniad â'n Cynllun Corfforaethol, er mwyn archwilio'n well ofynion ac effaith y ddyletswydd economaidd gymdeithasol a oedd i’w chyflwyno cyn bo hir yn ogystal ag ystyried canlyniadau prosiectau/mentrau amrywiol fel y Symposiwm Tlodi a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019.

Roedd gwaith i adolygu ein hamcanion cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig wedi dechrau yn gynnar yn 2019 gan ystyried amrywiol gyhoeddiadau/ganfyddiadau ymchwil cenedlaethol a lleol; y data diweddaraf sydd ar gael i'r cyngor a materion a godwyd gan grwpiau cydraddoldeb lleol yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020, bwriadwyd i'r CCS newydd ei ddiwygio, ynghyd â'r amcanion a'r camau gweithredu cydraddoldeb drafft, ddechrau ar ei daith drwy ein proses adrodd yn barod i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, daeth hyn i ben gyda chychwyniad pandemig COVID-19.

Ers cychwyniad COVID-19 daeth yn fwyfwy amlwg, er bod pob cymuned wedi'i heffeithio, fod cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi eu heffeithio'n anghymesur mewn materion iechyd, fel gweithwyr allweddol, gyda'r effeithiau difrifol ar gyflogaeth yn ogystal ag mewn perthynas ag addysg hygyrch i blant a phobl ifanc.

Roedd marwolaeth greulon George Floyd ar 25 Mai 2020, ynghyd â digwyddiadau eraill yn ein hanes diweddar yn ogystal ag effaith ddinistriol y pandemig ar gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn rhoi sylw gweladwy i'r agweddau a'r ymddygiadau dwfn sy'n parhau tuag at bobl o'r cymunedau hyn.

O ganlyniad, cydnabuwyd y byddai angen adolygu'r amcanion a'r camau gweithredu cydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn llawn ag effaith y digwyddiadau hyn ar ein cymunedau lleol.

Ar ôl adolygu'r amcanion ac ystyried tystiolaeth ddiweddar fel yr adroddwyd i wahanol bwyllgorau'r llywodraeth, ystyriwyd bod yr amcanion cydraddoldeb yn berthnasol o hyd. Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, link ynghyd â'r amcanion cydraddoldeb, erbyn 1 Hydref 2020 (y dyddiad cyhoeddi diwygiedig fel y cynghorwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol).

Fodd bynnag, methom i gyflawni'r camau gweithredu a datblygwyd mesurau amgen i gyflawni'r amcanion hyn yn well dan yr amgylchiadau presennol gyda chyfranogiad ein gweithlu a'n cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd

ethnig. Cyhoeddwyd y rhain fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar ôl i'r cyngor eu cymeradwyo ar 27 Ionawr 2021.

Rydym yn cydnabod nad dyma ddiwedd ein gwaith.  Mae angen i ni weithredu a gwneud cynnydd a bod yn ymwybodol bod y camau gweithredu, fel ein cymdeithas a'n hamgylchiadau sy'n newid yn barhaus, yn hyblyg. Byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol i anghenion ein cymunedau.

Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau drwy ystyried canfyddiadau arolwg gwaith diweddar y Gymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i helpu i lywio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dull cynhwysfawr o adfer ac yn rhan annatod ohono. O ganlyniad, ychwanegir amserlenni ar gyfer camau gweithredu, ac unrhyw fesurau newydd neu ddiwygiedig, pan ddaw manylion y gwaith hwn yn gliriach.

## Adran 5 - Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu adborth ar yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn drwy:

E-bost: policy@npt.gov.ukneu'r post: Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Rydym hefyd wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/cynnwys ynghylch gwasanaethau amrywiol rydym yn eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan, a gallwch eu cyrchu drwy'r ddolen ganlynol: http://www.npt.gov.uk/haveyoursay

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Ewch i wefan y cyngor: www.npt.gov.uk

Dilynwch ni ar dudalen Facebook y cyngor lle gallwch hefyd ychwanegu eich sylwadau:
www.facebook.com/CyngorCnPT

Dilynwch yr adroddiad hwn ar ein tudalen Twitter a rhannwch eich negeseuon trydar â ni: @CyngorCNPT

Dilynwch ni ar Instagram https://www.instagram.com/nptcouncil/

## Adran 6 - Mesurau Perfformiad

| Allwedd Perfformiad | |
|---|---|
| ↑ | Perfformiad wedi gwella |
| ⟷ | Perfformiad wedi'i gynnal |
| ↓ | Perfformiad wedi dirywio |
| - | Dim data cymaradwy (data ddim yn addas ar gyfer cymharu/dim data ar gael ar gyfer cymharu) |

| Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **1** | **AC 1.1** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - | 162 | 145 | - |
| **2** | **AC 1.2** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - anabledd | 19 | 18 | - |
| **3** | **AC 1.3** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - hil | 106 | 95 | - |
| **4** | **AC 1.4** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - crefydd | 3 | 4 | - |
| **5** | **AC 1.5** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - tueddfryd rhywiol | 24 | 23 | - |
| **6** | **AC 1.6** | Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - trawsrywiol | 12 | 7 | - |
| | Mae bob amser yn heriol rhagweld union nifer y troseddau casineb, gan ei bod yn ymddangos nad yw pobl yn adrodd am droseddau casineb o hyd, oherwydd llawer o resymau. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| | Mae'r Cydlyniant Cymunedol (Arolwg Brexit) diweddar wedi gofyn yn benodol am droseddau casineb ac adrodd amdanynt. Mae canlyniadau'r arolwg eisoes wedi'u rhannu â'n partneriaid heddlu a rhanddeiliaid allweddol eraill. | | | | |
| **7** | **AC 1.7** | Nifer yr atgyfeiriadau i Banel y Sianel | 2 | 6 | **-** |
| | Yn dilyn y gwaith o hyrwyddo'r llwybr atgyfeirio i'r Sianel a pharhau i gyflwyno hyfforddiant WRAP ar draws yr awdurdod, rydym wedi gweld cynnydd disgwyliedig yn nifer yr atgyfeiriadau.<br>Mae'n bwysig nodi nad yw llawer o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn i'r Sianel, gan y gellir eu hystyried yn amhriodol ar gyfer y lefel hon o ymyrraeth gan WECTU (Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru).<br>Mae ffigurau atgyfeirio yn parhau i godi oherwydd y cynnydd mewn hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth ar draws yr awdurdod ac o fewn sefydliadau partner. | | | | |
| **8** | **AC 1.8** | Nifer yr atgyfeiriadau newydd i Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol | 2,650 | 1,967 | **-** |
| | Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dioddefwyr ar bob lefel risg, o risg isel-ganolig i risg uchel iawn a gellir cefnogi dioddefwyr ar draws mwy nag un maes e.e. yn agored i'r gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) ac sy'n hysbys i ddarparwr arbenigol neu Gydlynydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg rhanbarthol.<br>Mae'n amhosib rhoi rheswm penodol dros y gostyngiad mewn atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod. Mae cael yr hyder i roi gwybod neu ddatgelu yn bryder hirsefydlog yn y maes gwaith hwn. Rydym yn annog datgelu, drwy Gyfathrebu ac Ymgysylltu, drwy hyfforddiant, ac yn parhau i herio'r stigma sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, ond yn y pen draw dewis personol yw datgelu ac ymgysylltu. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| | Mae'n debygol y bydd nifer yr atgyfeiriadau'n cynyddu ar gyfer y cyfnod 2020-2021, o ganlyniad i barhau i gyflwyno gwaith hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth ac oherwydd effaith y cyfyngiadau symud amrywiol a gafwyd yn ystod y cyfnod pan fu cynnydd enfawr yn y galw ar draws yr holl asiantaethau. | | | | |
| **9** | **AC 1.9** | Nifer yr ail-atgyfeiriadau Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol | 617 | 731 | **-** |
| | Yn aml, gall dioddefwyr cam-drin domestig ei chael hi'n anodd ymgysylltu â chefnogaeth oherwydd natur y cam-drin a phatrymau ymddygiad rheoli/gorfodi partner sy'n cam-drin. Am y rheswm hwn, gall dioddefwyr ddatgysylltu o wasanaeth ond yna cyflwyno'u hunain eto yn nes ymlaen. Fel arall, bydd rhai dioddefwyr yn ymgysylltu'n llawn â chefnogaeth ac ni fydd angen gwasanaethau arnynt mwyach.<br>Fodd bynnag, mae carfan o bobl ag anghenion cymhleth sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â gwasanaethau ac a fydd yn defnyddio gwasanaethau lluosog yn barhaus gyda chanlyniadau gwael iawn. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i ddeall yn well yr ymagwedd a ddefnyddir yn yr achosion hyn, ac a fyddai ymagwedd amgen yn fwy priodol ac yn arwain at ganlyniadau gwell. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **11** | **AC 2.2** | % y gwe-dudalennau sydd ar gael yn Gymraeg | 100% | 100% | ⟷ |
| **14** | **AC 2.5 (DBC/007)** | % y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n weddol fodlon ar welliannau a wnaed i'r gwasanaeth sydd ar gael ar-lein - golwg a naws cyffredinol | 100% (21 allan o 21) | 79% (23 allan o 29) | ↓ |
| **15** | **AC 2.6 (DBC/008)** | Mwy o'n cwsmeriaid yn ei chael hi'n haws defnyddio'r wefan: % y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n eithaf bodlon ar hwylustod defnyddio'r wefan | 85.71% (18 allan o 21) | 83% (25 allan o 30) | ↓ |
| **16** | **AC 2.7 (DBC/009)** | Gall mwy o'n cwsmeriaid gael mynediad at wybodaeth a chanfod y wefan/gwasanaeth y mae ei angen arnynt yn fwy hwylus y tro cyntaf: % sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n weddol hapus gyda chanfod gwybodaeth/gwasanaethau | 88.1% (18.5 allan o 21) | 82.7% (24 allan o 29) | ↓ |
| | Rydym yn y broses o ailwampio rhannau o'r wefan yn seiliedig ar ddadansoddi data ac adborth gan gwsmeriaid. Mae adborth gan gwsmeriaid a thaith y defnyddiwr yn chwarae rhan sylweddol ym mhroses ddylunio'r wefan. | | | | |
| **17** | **AC 2.8 (DBC/010)** | Nifer y cwsmeriaid a gynorthwyir i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth gan staff Siop dan yr Unto'r Gwasanaethau Cwsmeriaid | 23 | - | **-** |
| | Oherwydd newidiadau mewn trefniadau gweithio ac adnoddau staff cyfyngedig, ni chasglwyd data ar gyfer y mesur hwn yn ystod 2019-2020. | | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **18** | **AC 2.9 (DBC/001)** | % y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gwasanaethau newydd) | 76.4% | 78.2% (75,958 of 97,168) | ↑ |
| | Mae data ar gyfer y mesur hwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau canlynol: ceisiadau am gasgliadau gwastraff swmpus, sbwriel ac ailgylchu, adrodd yn seiliedig ar leoliad am finiau cŵn a biniau graean, casgliadau gwastraff a gollwyd, trefnu apwyntiadau rheoli plâu a hawlenni faniau. Mae'r galw am ddarpariaeth ar-lein yn y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu yn unol â'r cyfeiriad corfforaethol. Caiff data ar gyfer yr holl drafodion ar-lein eraill ei gynnwys ar ôl cwblhau'r holl fesurau. | | | | |
| **19** | **AC 2.10 (DBC/002)** | Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein | 16 | 22 | ↑ |
| | Cyflwynwyd gwasanaethau newydd ac wedi'u gwella yn ystod 2019-20, gan gynnwys: Y cynnig gofal plant, ceisiadau am brydau ysgol am ddim, tipio anghyfreithlon, aelodaeth Parc Margam, hawlenni sgipiau a sgaffaldwaith, archebu tystysgrifau genedigaeth, marwolaeth a phriodas swyddfa'r Cofrestrydd, Prydau Ysgol am Ddim, grantiau busnes, adrodd am iechyd a diogelwch a mapio mannau gwyrdd.<br><br>Mae defnydd ychwanegol o wasanaethau GOV.UK Notify (neges destun, e-bost a llythyr) yn cynnwys: Bathodynnau Glas, Cydlyniant Rhieni, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithffyrdd, Gwasanaethau Adeiladau, Treth y Cyngor/Refeniw a Budd-daliadau, Gwasanaethau Etholiadol a Gwasanaethau Addysg. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **21** | **AC 2.12** | Nifer y cwynion a gadarnhawyd a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y cyngor/Safonau'r Gymraeg. | 1 allan o 5 | 1 ac 1 yn rhannol allan o 8 | ↑ |
| | Derbyniwyd cyfanswm o wyth cwyn yn ystod 2019-2020; derbyniwyd saith drwy Gomisiynydd y Gymraeg a daeth un yn uniongyrchol at y cyngor. O'r saith a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg, cadarnhawyd un, nid oedd angen ymchwilio i bump ohonynt ac mae un yn parhau i gael ei ymchwilio.<br>Roedd dwy ran i'r gŵyn a wnaed yn uniongyrchol i'r cyngor:<br>• Atebwyd e-bost Cymraeg yn Saesneg - camddealltwriaeth gan staff ynghylch manylion cronfa ddata Gymraeg, yr aed i'r afael ag e' drwy hyfforddiant staff.<br>• pryder ynghylch diffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg – er nad oedd yr unig siaradwr Cymraeg yn cael ei gyflogi yn y gwasanaeth mwyach, gwnaed trefniadau eisoes i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnig gwasanaeth Cymraeg.<br>Ceir rhagor o wybodaeth am gwynion yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella mynediad at wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill - y Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **22** | **AC 3.1** | Nifer yr oedolion a oedd yn derbyn gwasanaethau gan y Gwasanaethau i Oedolion ar 31 Mawrth | 2,721 | 2,626 | **-** |
| | Mae'r achos dros y gostyngiad yn awgrymu bod mwy o gymorth ar gael yn y gymuned ac o wasanaethau ataliol, gan leihau'r angen i bobl fod mewn angen gofal a chymorth, er na nodir yr union reswm dros y gostyngiad. | | | | |
| **23** | **AC 3.2** | Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant ar 31 Mawrth | 1,182 | 1,154 | **-** |
| **24** | **AC 3.3** | Nifer y gofalwyr a aseswyd ar 31 Mawrth 2017 | 287 | 216 | **-** |
| | Mae'r gwasanaeth Gofalwyr yn cynnal asesiadau ar ran y cyngor, ond nid yw llawer o ofalwyr yn manteisio ar y cynnig am asesiad. Fodd bynnag, bydd yr holl ofalwyr a nodwyd yn derbyn gwybodaeth a chyngor gan y gwasanaeth i'w cefnogi yn eu rôl. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 4: Monitro gwybodaeth a data yn effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **25** | **AC 4.1** | Nifer yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r Bwrdd Cabinet perthnasol | 6 | 13 | ↑ |

| Amcan Cydraddoldeb 4: Monitro gwybodaeth a data yn effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **26** | **AC 4.2** | Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y canlynol: Cymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME) | 10 | 9 | ⟷ |
| | Cymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du - y ffigur a ddyfynnwyd yw nifer yr ymddiriedolwyr ar y Pwyllgor Gweithredol. Roedd y gostyngiad yn nifer yr ymddiriedolwyr o ganlyniad i farwolaeth un o'i ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2019. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 5: Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **27** | **AC5.1** | Nifer y staff sy'n mynychu hyfforddiant ar bynciau penodol | 1,876 (roedd 1,485 yn staff CNPT) | 1,349 (Staff CNPT) | - |
| | Cyflwynwyd nifer o gyrsiau penodol yn ystod 2019-2020 gan gynnwys Cydraddoldeb yn y Gweithle ac Anableddau Cudd a Gwneud Addasiadau Rhesymol.<br>Cafodd y cyrsiau eraill a drefnwyd e.e. Rhagfarn yn Ddiarwybod/ Cydraddoldeb yn y Gweithle/Cyflwyniad i Faterion Trawsryweddol eu gohirio oherwydd effaith COVID-19. | | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **28** | **AC6.1** | Nifer y cwynion a dderbyniwyd o ran hygyrchedd. | 0 | 0 | ⟷ |
| **29** | **AC6.2** | % y cwynion a gadarnhawyd o ran hygyrchedd | 0 | 0 | ⟷ |
| **30** | **AC6.3** | % yr oedolion 60+ oed sy'n meddu ar docyn bws rhatach | 87% | 68.82% | **-** |
| | Rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru, ymgymryd â'r gwaith swmpus o adnewyddu'r holl gardiau bws consesiynol yng Nghymru. Roedd hwn yn waith mawr a oedd yn annog pobl i wneud cais ar-lein am eu cardiau newydd. Cyn dechrau ar y gwaith hwn, rhagwelwyd y byddai llawer llai o gardiau'n cael eu dosbarthu yn dilyn y broses adnewyddu. | | | | |
| **31** | **AC6.4** | Nifer y teithiau sgwteri symudedd a drefnwyd gan Shopmobility<br><br>Castell-nedd | 1,555 | 1,319 | ↓ |
| | | Port Talbot | 2,402 | 2,137 | ↓ |
| **32** | **AC6.5** | Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cofrestru gyda Shopmobility<br><br>Castell-nedd | 164 | 89 | ↓ |
| | | Port Talbot | 202 | 146 | ↓ |

| Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| | Mae Shopmobility wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:<br>Mae siop Castell-nedd yn parhau i gael ei effeithio'n sylweddol ers symud i safle'r maes parcio aml-lawr yn 2016.<br>Bu gostyngiad parhaus yn y defnydd oherwydd ei fod wedi'i leoli ymhellach o lawer i ffwrdd o'r brif ardal siopa nag yn y lleoliad blaenorol ac felly maent yn cael eu heffeithio'n fwy gan dywydd garw. Gan fod Shopmobility Port Talbot wedi'i lleoli yng Nghanolfan Siopa Aberafan ei hun, nid yw'r tywydd yn effeithio ar ddefnyddwyr ceir yn fawr.<br>Yn y lleoliad blaenorol roedd parcio am ddim ar gael i ddefnyddwyr Shopmobility, ac er bod nifer bach o leoedd parcio wedi'u neilltuo ar gyfer defnyddwyr Shopmobility ym maes parcio aml-lawr Castell-nedd, nid yw'r rhain am ddim ac mae cost parcio yn mynd yn afresymol i lawer. Adlewyrchir hyn yn y gostyngiad mewn defnydd dyddiol ac yn nifer y cofrestriadau newydd yng Nghastell-nedd a Phort Talbot. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **33** | **AC 7.1** | % y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen | 77.12% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen | 65.29% | Dd/B | **-** |
| **34** | **AC 7.2** | % y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen | 76.58% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen | 70.77% | Dd/B | **-** |
| **35** | **AC 7.3** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 89.27% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 81.38% | Dd/B | **-** |
| **36** | **AC 7.4** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 87.64% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 85.25% | Dd/B | **-** |
| **37** | **AC 7.5** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 90.16% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 80.48% | Dd/B | **-** |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **38** | **AC 7.6** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 86.27% | Dd/B | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 80.00% | Dd/B | **-** |
| **39** | **AC 7.7** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 76.12% | 80.35% | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 52.55% | 64.05% | **-** |
| **40** | **AC 7.8** | % y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 60.81% | 70.32% | **-** |
| | | % y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 57.12% | 63.14% | **-** |
| | Ni chasglwyd unrhyw asesiadau Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019/20 oherwydd pandemig COVID-19.<br>O 2018/19, nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data 'Lefel 2' Cyfnod Allweddol 4 mwyach, er bod y ffigurau wedi'u cynnwys, sy'n cael eu casglu gan daenlenni dadansoddi data'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes. Mae llythrennedd Cyfnod Allweddol 4 yn cynnwys iaith a llenyddiaeth; mae rhifedd yn cynnwys mathemateg a rhifedd<br>Mae ffigurau 2019-2020 yn seiliedig ar asesiadau athrawon oherwydd pandemig COVID-19. | | | | |
| **41** | **AC 7.9** | % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd: | 94.02% | 93.83% | **-** |
| | | merched: | 94.20% | 94.04% | **-** |
| | | bechgyn: | 93.86% | 93.62% | **-** |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| | | disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig | 93.63% | 92.76% | - |
| | | disgyblion sy'n wyn Prydeinig | 94.07% | 93.93% | - |
| | | disgyblion ag anghenion addysgol arbennig | 92.70% | 92.24% | - |
| | | disgyblion heb anghenion addysgol arbennig | 94.55% | 94.41% | - |
| | | disgyblion sy'n deithwyr | 84.58% | 77.92%* | - |
| | | disgyblion nad ydynt yn deithwyr | 94.07% | 93.92% | - |
| | Roedd data presenoldeb 2019-2020 ar gael hyd at 13 Mawrth 2020 oherwydd cychwyniad pandemig COVID-19.<br>* Er na ellir nodi rheswm penodol, mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn; teuluoedd yn dod yn fwy crwydrol nag arfer; pwysau o fewn y gymuned Teithwyr a'i thraddodiad diwylliannol; gallai newidiadau yn y Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed a'r gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg fod wedi amharu ar gefnogaeth a hyder ymhlith teuluoedd, a chyda niferoedd isel o ddisgyblion mae tynnu ychydig o blant yn ôl yn debygol o arwain at wahaniaeth canrannol sy'n fwy | | | | |
| **42** | **AC 7.10** | % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.46% | 92.51% | - |
| | | merched: | 93.51% | 92.49% | - |
| | | bechgyn: | 93.41% | 92.53% | - |
| | | disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig | 94.40% | 93.44% | - |
| | | disgyblion sy'n wyn Prydeinig | 93.43% | 92.50% | - |
| | | disgyblion ag anghenion addysgol arbennig | 91.47% | 90.05% | - |
| | | disgyblion heb anghenion addysgol arbennig | 94.23% | 93.37% | - |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| | | disgyblion sy'n deithwyr | 76.62% | 65.65%* | - |
| | | disgyblion nad ydynt yn deithwyr | 93.49% | 92.92% | - |
| | Roedd data presenoldeb 2019-2020 ar gael hyd at 13 Mawrth 2020 oherwydd cychwyniad pandemig COVID-19<br>*Er na ellir nodi rheswm penodol, mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn; teuluoedd yn dod yn fwy crwydrol nag arfer; pwysau o fewn y gymuned Teithwyr a'i thraddodiad diwylliannol; gallai newidiadau yn y Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed a'r gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg fod wedi amharu ar gefnogaeth a hyder ymhlith teuluoedd, a chyda niferoedd isel o ddisgyblion mae tynnu ychydig o blant yn ôl yn debygol o arwain at wahaniaeth canrannol sy'n fwy | | | | |
| **43** | **AC 7.11** | Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd | 1 | 3 | ↓ |
| | | Bechgyn: | 1 | 2 | ↓ |
| | | Merched: | 0 | 1 | ↓ |
| | | AAA | 1 | 3 | ↓ |
| | | Teithwyr | 0 | 0 | ⟷ |
| | | BME | 0 | 0 | ⟷ |
| **44** | **AC 7.12** | Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion uwchradd | 17 | 10 | ↑ |
| | | Bechgyn: | 13 | 6 | ↑ |
| | | Merched: | 4 | 4 | ⟷ |
| | | AAA | 13 | 8 | ↑ |
| | | Teithwyr | 0 | 0 | ⟷ |
| | | BME | 0 | 1 | ↓ |

| Amcan Cydraddoldeb 8: Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf.** | **Mesur** | **2018-2019** | **2019-2020** | **Cyfeiriad Gwelliant** |
| **45** | **AC 8.1** | Nifer y staff sy'n mynd i hyfforddiant recriwtio | 29 | 49 | ↑ |
| **46** | **AC 8.2** | % y cyfranogwyr a fu mewn sesiynau hyfforddiant a oedd yn ystyried bod eu gwybodaeth wedi gwella | 100% | 100% | ⟷ |
| **47** | **AC 8.3** | Nifer y cwynion recriwtio | 0 | 0 | ⟷ |
| **48** | **AC 8.4** | Nifer y dechreuwyr newydd sy'n dechrau uwchben pwynt isaf y raddfa | 35 | 27 | ↑ |